# Proffil Swydd

Cyflog: Gradd 3 – £25,989 – £26,824.

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am geisiadau gan unigolion ar gyfer rôl Cynorthwyydd Arlwyo wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin.

Y Rôl

Rydym yn chwilio am Gynorthwyydd Arlwyo dibynadwy a brwdfrydig i gefnogi darparu gwasanaethau arlwyo ar ein safle yng Nghaerfyrddin. Mae'r rôl yn cynnwys cynorthwyo gyda pharatoi a gweini prydau bwyd, cynnal safonau uchel o ran glendid a hylendid ar draws yr holl geginau a'r ardaloedd bwyta, archebu a phrynu darpariaethau, rheoli golchi dillad, a chofnodi tymheredd bwyd ac oergelloedd. Byddwch hefyd yn darparu lluniaeth i staff, ymwelwyr, a chyfranogwyr y cwrs, ac yn cyflawni dyletswyddau yn absenoldeb y cogydd.
Yr oriau gwaith yw 9am – 2pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae hon yn swydd ran-amser sy'n gweithio 25 awr yr wythnos gydag oriau hyblyg yn unol â chynllun amser hyblyg y Gwasanaeth.

Ymholiadau

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â Rheolwr Adnoddau Dynol, Lizzie Jones ar lizzie.jones@mawwfire.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cynorthwyydd Arlwyo |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 3 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Bencadlys y Gwasanaeth, Cserfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Darparu Prydau a Lluniaeth. Trefnu cyflenwadau bwydydd |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| Dirprwyo dros y cogydd yn ei (h)absenoldeb a darparu gwasanaethau arlwyo | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Cynorthwyo gydag archebu nwyddau bwytadwy yn wythnosol i'w danfon i'r Canolfan Reoli. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Prynu bwydydd darfodus yn ddyddiol. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Mynychu cyrsiau Iechyd a Hylendid perthnasol pan fo angen. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Ateb ffôn yr ystafell fwyta a chymryd negeseuon pan fo angen. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Bod yn gyfrifol am olchi'r llestri ar ôl prydau bwyd, lluniaeth ac egwylion. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Cynorthwyo gyda darparu, paratoi a gweini lluniaeth a phrydau bwyd i unrhyw weithwyr y Gwasanaeth Tân yng nghanolfan Treforys, i'r rhai sy'n mynychu cyrsiau, ymwelwyr a'r rhai o gyrff allanol sy'n cymryd rhan. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Bod yn gyfrifol am gynnal a chadw, ac am lendid cyffredinol y gegin, yr ystafell fwyta ac ystafell gotiau'r cogydd. Mae hyn yn cynnwys y lloriau, y teils, yr arwynebau gweithio, y ffwrn, yr oergelloedd, yr offer, ac ati. Yn ogystal, ymgymryd â glanhau trylwyr bob mis. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Adrodd am doriadau offer gwaith fel y gellir eu hamnewid. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Trafod y golch glân, y llieiniau sychu llestri a'r llieiniau rhôl, sy'n berthnasol i'r gegin. Golchi a sychu'r golch brwnt sy'n berthnasol i'r gegin. | Rheolwr Adnoddau Dynol |

| | |
|---|---|
| Cofnodi a chadw rheolaeth dros dymheredd y bwyd a'r oergelloedd. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd a Deddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn rhesymol ofynnol o fewn cwmpas y swydd. | Rheolwr Adnoddau Dynol |
| Ymrwymwch i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n agored i niwed yn y cymunedau ehangach drwy roi gwybod am bryderon i Swyddog Diogelu a/ neu Dîm Diogelu'r Gwasanaeth. | Rheolwr Adnoddau Dynol |

